# Anesthetig cyffredinol eich plentyn

Mae'r daflen hon yn egluro beth i'w ddisgwyl pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dod i'r ysbyty i gael llawdriniaeth gydag anesthetig cyffredinol. Mae wedi cael ei hysgrifennu gan anesthetyddion, yn cydweithio â chynrychiolwyr cleifion, rhieni a gofalwyr.

## Cynnwys

Mae'r daflen hon yn egluro:

- gwybodaeth gyffredinol ynglŷn ag anesthesia a'r tîm fydd yn gofalu am eich plentyn
- sut i baratoi eich plentyn ar gyfer llawdriniaeth
- lle i ddod o hyd i adnoddau gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
- beth fydd yn digwydd cyn y llawdriniaeth
- beth fydd yn digwydd ar ddiwrnod y llawdriniaeth
- beth fydd yn digwydd ar ôl y llawdriniaeth
- risgiau a phenderfynu ar y cyd.

## Ynghylch anesthesia

Mae anesthetig cyffredinol yn sicrhau bod eich plentyn mewn cyflwr sy'n debyg i gwsg trwm ac yn rhydd o boen yn ystod llawdriniaeth neu driniaeth.

Anesthetigion yw'r cyffuriau a ddefnyddir i ddechrau a chynnal anesthesia.

- I ddechrau rhai triniaethau anesthetig caiff meddyginiaeth ei rhoi i mewn i wythïen trwy diwb plastig a elwir yn caniwla.
- I ddechrau triniaethau anesthetig eraill caiff nwy ei anadlu trwy fasg dros y geg a'r trwyn. Fel arfer, caiff caniwla ei osod pan fydd eich plentyn yn cysgu.
- Gellir cynnal yr anesthetig drwy barhau naill ai i anadlu'r nwy neu i roi'r anesthetig trwy'r caniwla, neu gyfuniad o'r ddau.

Mae anesthetyddion yn feddygon arbenigol sy'n rhoi'r anesthetig ac yn gofalu am iechyd eich plentyn yn ystod y llawdriniaeth a'r cyfnod gwella. Maent hefyd yn ymwneud yn agos â lleddfu poen eich plentyn ar ôl y llawdriniaeth.

# Clinig asesu cyn llawdriniaeth/sgrinio dros y ffôn

Mae'n bosibl y bydd nyrs o'r ysbyty yn trefnu i'ch ffonio cyn diwrnod y llawdriniaeth i gael gwybodaeth am iechyd eich plentyn ac unrhyw feddyginiaeth y mae'n ei chymryd. Mae hyn yn rhoi amser i'r ysbyty drefnu profion pellach neu gyfarpar arbennig, os bydd angen, cyn diwrnod y llawdriniaeth.

Bydd llawer o ysbytai yn gwahodd plant i'r clinig asesu cyn llawdriniaeth, yn enwedig plant sydd â salwch tymor hir neu a fydd yn cael llawdriniaeth fawr. Yno, byddant yn holi am iechyd, meddyginiaethau ac alergeddau eich plentyn. Byddant yn cymryd swab o groen (drwy rwbio'r croen yn ysgafn â ffon gotwm feddal) i chwilio am unrhyw haint cyn y llawdriniaeth, ac yn gwneud unrhyw brofion gwaed sydd eu hangen.

Efallai y byddwch chi hefyd yn cyfarfod anesthetydd a fydd yn gallu trafod â chi yr opsiynau ar gyfer yr anesthetig ac unrhyw risgiau penodol. Fel arfer, bydd yr anesthetydd neu'r nyrs yn y clinig asesu cyn llawdriniaeth yn eich holi ynglŷn â phrofiadau blaenorol eich plentyn o gael anesthetig neu bigiadau, megis brechiadau. Yn aml, mae rhesymau meddygol pam y gall un math o anesthetig fod yn well na'r llall. Byddant yn trafod â chi eu hargymhellion ar gyfer sut i ddechrau'r anesthetig a'r rhesymau dros hynny.

Ar ôl trafod â chi, fe gytunir ar gynllun. Weithiau efallai y bydd angen newid y cynllun, yn dibynnu ar adwaith ac ymateb eich plentyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

Gallwch godi unrhyw faterion unrhyw bryd ar ddiwrnod y llawdriniaeth neu cyn hynny.

## Paratoi'ch plentyn

Mae nifer o bethau y gellir eu gwneud i baratoi'ch plentyn ar gyfer dod i'r ysbyty. Oni bai bod eich plentyn yn ifanc iawn, dylid ceisio egluro:

- ei fod yn mynd i'r ysbyty
- y bydd yn cael llawdriniaeth neu archwiliad
- ychydig o wybodaeth sylfaenol am beth fydd yn digwydd pan fydd yn yr ysbyty.

Bydd yr amser gorau i rannu'r wybodaeth hon yn dibynnu ar y plentyn. Mae'n debyg mai dim ond y diwrnod cynt y mae angen i blant dan oed ysgol gael gwybod. Efallai y bydd angen rhoi mwy o rybudd i blant hŷn.

Hefyd, mae taflenni ar gyfer plant o oedrannau gwahanol ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan yr Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland (Cymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon): www.apagbi.org.uk/children-and-young-people

Mae rhai ysbytai yn cynnig y cyfle i chi a'ch plentyn ymweld â ward llawdriniaeth y plant neu â'r ystafell anesthetig cyn diwrnod y llawdriniaeth. Mae hyn yn ffordd dda o baratoi'ch plentyn a lleihau pryder. Mae rhai ysbytai yn cynnig teithiau rhithiol trwy apiau a fideos.

Mae gan lawer o ysbytai dîm therapi chwarae sy'n gallu egluro ac annog trafodaeth trwy chwarae.

### Beth i'w ddweud wrth eich plentyn

- Eglurwch y bydd y llawdriniaeth neu brawf yn helpu eich plentyn i wella neu yn gwella cyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes.
- Anogwch eich plentyn i siarad am y llawdriniaeth ac i ofyn cwestiynau. Gall llyfrau, gemau, a straeon helpu.
- Siaradwch â'ch plentyn am amseru. Pryd fydd e neu hi'n cael y llawdriniaeth neu'r archwiliad? Pa mor hir fydd yr arhosiad yn yr ysbyty (os ydych chi'n gwybod hyn)?
- Os bydd eich plentyn yn aros yn yr ysbyty dros nos, gadewch iddo neu iddi wybod a fyddwch chi'n gallu aros yno hefyd. Os nad ydych chi'n siŵr a yw hyn yn bosibl, gallwch ffonio'r ysbyty i gadarnhau.

### Beth i'w gymryd i'r ysbyty

Gall eich nyrs roi cyngor i chi am beth ddylech chi ei gymryd i'r ysbyty, ond cofiwch ddod â'r canlynol:

- unrhyw feddyginiaeth y mae eich plentyn yn ei chymryd yn rheolaidd, yn y paced gwreiddiol
- pyjamas, sliperi, dillad sbâr, newid o ddillad isaf neu gewynnau
- brwsh dannedd, past dannedd, brwsh gwallt a phethau ymolchi
- hoff dedi neu degan
- llyfr neu bad o bapur tynnu llun
- ffonau symudol a dyfeisiau electroneg gyda gwefrydd a chlustffonau.

Mae plant yn aml yn mwynhau penderfynu beth i'w bacio, ond mae'n well peidio cynnwys gormod o deganau, oherwydd mae teganau a gweithgareddau yn aml ar gael yn yr ysbyty.

### Salwch ychydig cyn y llawdriniaeth?

Dylech ffonio'r ysbyty os fydd eich plentyn yn datblygu peswch neu annwyd trwm o fewn pythefnos i'r llawdriniaeth, neu ddolur rhydd neu chwydu o fewn ychydig ddyddiau i'r llawdriniaeth. Efallai y bydd angen gohirio'r llawdriniaeth nes bod eich plentyn yn well.

Gall peswch ac annwyd beri i blant, yn enwedig plant iau, fod yn fwy tebygol o gael anawsterau anadlu o dan yr anesthetig. Gallant hefyd gynyddu risg plant o gael haint ar y frest. Mae'n bwysig felly eich bod chi'n rhoi gwybod i staff yr ysbyty os yw eich plentyn wedi bod yn sâl.

Dylech hefyd roi gwybod i staff yr ysbyty os yw eich plentyn wedi bod mewn cysylltiad diweddar â brech yr ieir, y frech goch neu heintiau eraill.

Nid yw brechiad diweddar yn broblem i blant sy'n cael anesthetig, oni bai eu bod yn datblygu gwres uchel yn union cyn dyddiad y llawdriniaeth. Os digwydd hynny, mae weithiau'n well gohirio'r driniaeth. Mae hyn yn anarferol iawn, ac felly byddem yn

cynghori rhieni i fwrw ymlaen â brechiadau arfaethedig ac i beidio â'u gohirio oherwydd bod llawdriniaeth wedi'i chynllunio.

# Risg a phenderfynu ar y cyd

Mae problemau difrifol yn anghyffredin gydag anesthetigion modern. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwella'n gyflym ac yn ôl i normal yn fuan wedi'r llawdriniaeth a'r anesthetig. Gall llawer o blant deimlo'n sâl neu gael dolur gwddf/gwddf tost. Nid yw hyn yn para'n hir fel arfer. Mae cyffuriau ar gael i drin cyfog a chwydu, a chânt eu defnyddio'n aml.

Mae rhagor o wybodaeth am **ddigwyddiadau a risgiau cyffredin mewn anesthesia** ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cael anesthetig cyffredinol. Mae hon ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan:
www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages

## Penderfynu ar y cyd

Mae penderfynu ar y cyd yn sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw. Mae'n broses gydweithredol lle mae clinigwr yn cefnogi claf i ddod i benderfyniad am ei driniaeth.

Bydd y sgwrs yn cyfuno:

- gwybodaeth arbenigol y clinigwr, megis opsiynau triniaeth, tystiolaeth, risgiau a buddion
- beth mae'r claf yn ei wybod orau: ei flaenoriaethau, amgylchiadau personol, nodau, gwerthoedd a chredoau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.england.nhs.uk/personalisedcare/shared-decision-making

Dyma rai adnoddau y gallwch chi eu defnyddio i wneud y gorau o'ch trafodaethau â'r anesthetydd neu'r staff asesu cyn llawdriniaeth:

### Choosing Wisely UK - fframwaith BRAN

Defnyddiwch y ddolen hon i'ch atgoffa i ofyn cwestiynau am eich triniaeth.
https://bit.ly/CWUK_leaflet

### GIG gofyn tri chwestiwn

Efallai y bydd dewisiadau i'w gwneud ynghylch eich gofal iechyd.
https://bit.ly/NHS_A3Qs

### The Centre for Perioperative Care (Canolfan Gofal Amdriniaethol) (CPOC)

Mae CPOC wedi cynhyrchu animeiddiad i egluro beth yw penderfynu ar y cyd.
www.cpoc.org.uk/shared-decision-making

# Diwrnod llawdriniaeth eich plentyn

## Dylai'r ysbyty roi cyfarwyddiadau clir ichi ynghylch pryd y dylai eich plentyn roi'r gorau i fwyta ac yfed. Mae'n bwysig eich bod chi a'ch plentyn yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn.

Os bydd bwyd neu hylif yn stumog eich plentyn yn ystod yr anesthetig, gallai godi i gefn y gwddf a mynd i lawr i'w ysgyfaint. Os bydd yr amser ers i'ch plentyn fwyta yn rhy fyr, yna bydd yn rhaid oedi cyn y llawdriniaeth, neu ei gohirio tan ddiwrnod arall.

Mae plant yn llawer mwy cyfforddus os nad ydyn nhw'n gorfod aros yn hirach nag sydd raid heb fwyd a diod. Mae rhai ysbytai yn caniatáu neu'n annog plant i yfed rhywbeth pan fyddant yn cyrraedd.

Mae'r canlynol yn amseroedd y cytunir arnynt yn gyffredin ar gyfer pryd y cewch chi roi rhywbeth i'ch plentyn ei fwyta neu ei yfed cyn llawdriniaeth nad yw'n llawdriniaeth frys. Ond cofiwch ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir i chi gan yr ysbyty, oherwydd gallent fod yn wahanol.

- Caiff plant fwyta pryd ysgafn a/neu yfed gwydraid o lefrith/llaeth chwe awr cyn y llawdriniaeth. Wedi hynny, ni ddylent fwyta unrhyw beth, gan gynnwys melysion, ac ni ddylent gnoi gwm.
- Caiff babanod sy'n bwydo ar y fron yfed llaeth y fron hyd at bedair awr cyn eu llawdriniaeth.
- Caiff babanod sy'n bwydo o botel yfed llaeth fformiwla hyd at chwe awr cyn y llawdriniaeth (holwch yr ysbyty ynghylch cyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer babanod bach iawn neu gynamserol).
- Dylai plant ddal i yfed dŵr neu sgwash gwan iawn hyd at awr cyn eu llawdriniaeth. Mae hyn yn eu helpu i gadw'n hydradol ac yn gyfforddus.

Dylai eich plentyn gymryd unrhyw feddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau ar ddiwrnod y llawdriniaeth.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd yr ysbyty, bydd eich plentyn yn cael ei bwyso a'i fesur (os nad yw hyn wedi ei wneud eisoes mewn apwyntiad blaenorol). Bydd nyrs yn mesur ei dymheredd, ei bwls a'i gyfradd anadlu, yn ogystal â'i lefelau ocsigen a'i bwysedd gwaed.

Mae'n arfer safonol i bob merch dros 12 oed gael prawf beichiogrwydd, drwy gymryd sampl wrin. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:
https://bit.ly/NHS-Leaflet

Bydd y nyrs yn holi am feddyginiaethau ac alergeddau eich plentyn, ac yn rhoi dau fand enw ar ei arddyrnau neu ei fferau. Mewn rhai ysbytai, bydd fand ychwanegol, neu o liw gwahanol, yn cael ei ddefnyddio, os oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau.

Daw anesthetydd i'ch gweld cyn y driniaeth er mwyn trafod anesthetig eich plentyn.

Bydd angen i'r anesthetydd gael gwybodaeth am iechyd cyffredinol eich plentyn, gan gynnwys:

- profiadau blaenorol o gael anesthetig
- unrhyw feddyginiaeth y mae eich plentyn yn ei chymryd
- unrhyw alergeddau sydd gan eich plentyn
- unrhyw beswch, annwyd, dolur rhydd neu gyfogi diweddar.

Os yw eich plentyn neu aelodau eraill o'ch teulu wedi cael trafferth gydag anesthetig yn y gorffennol, mae'n hanfodol trafod hyn â'r anesthetydd a chyflwyno unrhyw wybodaeth sydd gennych chi neu berthynas.

Mae hwn yn amser da i drafod unrhyw bryderon sydd gennych chi neu eich plentyn ynghylch yr anesthetig. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi wneud rhestr o gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn.

Yn dibynnu ar y math o lawdriniaeth y mae eich plentyn yn ei chael, efallai y bydd yr anesthetydd hefyd yn gallu fferru nerfau ag anesthetig lleol tra bod eich plentyn yn cysgu er mwyn helpu gyda lleddfu poen wedyn.

Efallai y bydd angen defnyddio diferwyr neu ganiwlâu ychwanegol hefyd. Bydd yr anesthetydd yn trafod â chi y rhesymau dros wneud hyn ynghyd â phwysigrwydd yr offer hwn o ran cadw eich plentyn yn ddiogel pan fydd yn cysgu ac yn gyfforddus pan fydd yn deffro/dihuno.

## Gohirio'r llawdriniaeth neu'r archwiliad

O bryd i'w gilydd wrth wneud asesiad, efallai y bydd yr anesthetydd yn dysgu rhywbeth am eich plentyn sy'n golygu y byddai'n fwy diogel peidio â gwneud y driniaeth y diwrnod hwnnw. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn dweud os a phryd y mae'n disgwyl y bydd yn ddiogel bwrw ymlaen â'r driniaeth.

## Rhagfoddion ('pre-med')

Dyma'r enw a roddir i unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi cyn anesthetig.

Efallai y bydd yr anesthetydd yn trafod â chi yr angen i ddefnyddio cyffuriau tawelu i helpu eich plentyn i ymlacio. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu rhoi fel arfer gan eu bod yn gallu gwneud plant yn gysglyd ar ôl y llawdriniaeth. Efallai y rhoddir cyffuriau lleddfu poen fel rhagfoddion hefyd, neu efallai y bydd yr anesthetydd yn awgrymu triniaeth ychwanegol ar gyfer cyflyrau fel asthma.

Mae'r rhan fwyaf o ragfoddion yn cael eu rhoi ar ffurf meddyginiaeth hylifol trwy'r geg, ond mae rhai ysbytai yn defnyddio dulliau eraill.

## Eli anesthetig lleol

Bydd bron bob plentyn yn cael eli fferru ar gefn ei ddwylo a gorchudd clir drosto. Mae'n eli anesthetig lleol sy'n cymryd 30-60 munud i weithio.

Mae'r eli hwn yn lleihau'r teimlad pan fydd caniwla'n cael ei osod yn llaw neu fraich eich plentyn.

Os nad yw'n bosibl defnyddio'r eli, gellir defnyddio anesthetig lleol ar ffurf chwistrell oer i fferru'r ardal.

## Mynd i'r ystafell lawdriniaeth

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai yn darparu gynau lliwgar i blant eu gwisgo wrth fynd i'r ystafell lawdriniaeth. Mae'n bosibl y caiff eich plentyn wisgo ei ddillad neu byjamas ei hun. Caiff wisgo clwt/cewyn neu 'pull-ups' yn ôl yr angen. Bydd eich nyrs yn eich cynghori ynghylch pa ddillad isaf y gellir eu gwisgo.

Gall eich plentyn gerdded i'r ystafell anesthetig, neu deithio ar wely neu droli ysbyty, mewn cadair olwyn neu gael ei gario. Mae rhai unedau'n cynnig mathau mwy hwyliog o gludiant. Mewn rhai ysbytai gellir cynnig reid mewn car trydan.

## Yn yr ystafell anesthetig

Bydd nyrs neu ymarferydd gofal iechyd megis arbenigwr chwarae o'r ward yn mynd gyda chi a'ch plentyn i'r ystafell anesthetig. Bydd eich plentyn yn cael cymryd tegan neu gysurwr. Gall ffôn symudol neu gyfrifiadur llechen fod yn arbennig o ddefnyddiol i dynnu sylw plant â gemau neu hoff sioeau.

Os dymunwch, bydd croeso i chi aros gyda'ch plentyn i'w gysuro tra bydd yn cael yr anesthetig. Prin iawn yw'r amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl.

Os ydych chi'n bryderus iawn eich hun, nid oes raid i chi fynd gyda'ch plentyn i'r ystafell anesthetig. Gall oedolyn arall o'r teulu neu nyrs ward neu therapydd chwarae fynd yn eich lle. I rai gofalwyr mae gwylio eu plentyn yn cael anesthetig yn brofiad gofidus – byddwch yn barod i deimlo ychydig yn emosiynol eich hun os byddwch chi'n aros gyda'ch plentyn.

Efallai y bydd eich plentyn yn gorwedd ar droli pan fydd y driniaeth anesthetig yn dechrau. Efallai y caiff plant llai eistedd ar eich glin i gael yr anesthetig. Byddai'r staff wedyn yn eu codi i'r troli, efallai gyda'ch help chi, os ydych chi'n gallu.

Os defnyddir caniwla i ddechrau'r anesthetig, fel arfer bydd eich plentyn yn mynd yn anymwybodol ac yn llipa yn gyflym iawn.  Weithiau gall hyn deimlo'n oer neu'n bigog yn y fraich. Bydd yr anesthetydd wedyn yn defnyddio masg i barhau â'r anesthetig ac i ddarparu ocsigen ychwanegol er diogelwch.

Os yw'r anesthetig yn cael ei ddechrau â nwy, mae'r anesthetydd fel arfer yn rhoi'r nwy trwy fasg, neu efallai trwy law wedi'i gosod yn ysgafn dros drwyn a cheg eich plentyn. Mae nwyon anesthetig yn arogli'n debyg i binnau ffelt.

Unwaith y bydd eich plentyn wedi cael ei anesthetig, bydd yr anesthetydd yn gosod caniwla fel y gellir darparu'r cyffuriau lleddfu poen ac anesthetig sydd eu hangen.

Fel rheol mae'n cymryd ychydig o amser (gall fod rhwng ychydig eiliadau a munud neu ddau) i'r anesthetig weithio. Mae'n hollol arferol i blant fynd yn aflonydd yn ystod y cyfnod hwn neu i'w anadlu swnio'n wahanol.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Unwaith y bydd eich plentyn yn cysgu, bydd aelod o staff yn mynd â chi allan o ardal yr ystafell lawdriniaeth i ganiatáu i'r tîm anesthetig fynd ymlaen â'r llawdriniaeth.

Fyddwch chi ddim yn gallu mynd i'r ystafell lawdriniaeth, ond bydd yr anesthetydd yn aros gyda'ch plentyn trwy gydol y driniaeth a bydd yn monitro ei bwysedd gwaed,

pwls, anadl a lefelau ocsigen yn agos, gan sicrhau ei fod yn ddiogel a bod yr anesthetig yn gweithio'n llawn.

Mae hwn yn amser da i chi fynd i gael rhywbeth i'w fwyta a'i yfed, ond cofiwch adael i'r staff wybod eich bod chi'n mynd a rhowch rif ffôn symudol iddyn nhw fel y gallan nhw gysylltu â chi.

# Ar ôl y llawdriniaeth

## Yn yr ystafell adfer

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deffro/dihuno mewn ystafell adfer. Bydd rhwymyn dros eu caniwla i'w gadw'n ddiogel, ac o'r golwg, wrth iddyn nhw ddeffro/ddihuno.

Yn ystod y cyfnod adfer, mae pob plentyn yn cael gofal gan nyrs arbenigol neu ymarferydd cymwys arall a fydd yn sicrhau bod eich plentyn yn gyfforddus. Bydd yn rhoi cyffuriau lleddfu poen a gwrth-salwch ychwanegol os bydd angen. Byddwch yn cael eich galw i fod gyda'ch plentyn unwaith y bydd yn effro ac yn gyfforddus. Bydd yr anesthetydd wrth law ac yn gallu rhoi cymorth os bydd angen.

## Gofid wrth ddeffro/ddihuno

Mae rhai plant yn dangos arwyddion o ddryswch a/neu ofid pan fyddant yn deffro/dihuno. Mae hyn yn fwy tebygol mewn plant iau dan oed ysgol.

Gall rhai plant fynd yn aflonydd iawn, yn enwedig plant iau. Efallai y byddan nhw'n crïo/llefain ac yn rholio o gwmpas neu'n chwifio'u breichiau a'u coesau. Gall yr ymddygiad hwn bara tua 30 munud, ac weithiau'n hirach. Mae staff yr ystafell adfer yn brofiadol mewn gofalu am blant yn y cyfnod hwn. Byddant yn ystyried a fyddai cynyddu'r dos o gyffuriau lleddfu poen yn helpu. Byddant yn rhoi cyngor i chi ar sut orau i gysuro a thawelu meddwl eich plentyn.

Os bydd plentyn yn ofidus wrth ddeffro/ddihuno mae hynny'n naturiol yn peri pryder i rieni. Byddai'n werth dweud wrth yr anesthetydd os yw eich plentyn wedi profi'r math hwn o ofid yn y gorffennol, fel y gall drafod ffyrdd o osgoi hynny yn y dyfodol.

## Lleddfu poen

Er mwyn sicrhau bod eich plentyn mor gyfforddus â phosibl wrth ddeffro/ddihuno, defnyddir cyffuriau lleddfu poen, ac weithiau anesthetig lleol, yn ystod yr anesthetig. Mae'r math o feddyginiaeth lleddfu poen a ddefnyddir yn dibynnu ar y driniaeth.

Bydd yr anesthetydd, y llawfeddyg a/neu staff y ward yn trafod â chi y dull lleddfu poen mwyaf priodol ar gyfer eich plentyn.

## Mynd adref

Yn aml, mae'n bosibl i'ch plentyn fynd adref ar ddiwrnod y llawdriniaeth os yw'r llawfeddyg a'r anesthetydd yn fodlon fod hyn yn opsiwn diogel a bod eich plentyn yn gwella'n foddhaol.

Byddwch yn cael cyngor ar sut i roi'r cyffuriau lleddfu poen i'ch plentyn pan fyddwch chi gartref. Efallai y byddai'n ddefnyddiol hefyd cael cyflenwad o paracetamol ac ibuprofen pediatrig yn barod ar gyfer pan fydd eich plentyn yn gwella gartref. Dylech ddilyn yn ofalus iawn y cyngor a roddir i chi am leddfu poen eich plentyn.

Gall rhai plant deimlo'n sâl neu gyfogi ar y ffordd adref. Byddwch yn barod ar gyfer hynny!

Os byddwch chi'n mynd â'ch plentyn adref ar ddiwrnod y llawdriniaeth, rhoddir rhif cyswllt i'w ffonio os byddwch chi'n pryderu am eich plentyn pan fyddwch chi gartref.

# Cwestiynau yr hoffech chi efallai eu gofyn

Os oes gennych chi gwestiynau ynglŷn ag anesthetig eich plentyn, gwnewch nodyn ohonyn nhw (gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau sy'n dilyn ac ychwanegu eich rhai eich hun yn y gofod isod). Os hoffech chi siarad ag anesthetydd cyn diwrnod eich llawdriniaeth, cysylltwch â'r tîm asesu cyn llawdriniaeth a fydd efallai'n gallu trefnu i chi siarad ag anesthetydd ar y ffôn neu mewn clinig.

1. **A yw fy mhlentyn yn wynebu unrhyw risgiau penodol?**
2. **Pryd ddylwn i ddechrau siarad â fy mhlentyn am yr anesthetig?**
3. **Sut alla i reoli pryder fy mhlentyn?**
4. **Pryd fydd fy mhlentyn yn gallu dychwelyd i'r ysgol?**
5. **…**
6. **…**
7. **…**

## Ymwadiad

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

# Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

**Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

## www.rcoa.ac.uk

### Seithfed argraffiad, Hydref 2023

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

**© 2023 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.